

# Cytûn: Cylchlythyr Gwanwyn 2014



## Adeg o Gyfle

Caiff y cylchlythyr hwn ei gyflwyno mewn da bryd cyn digwyddiadau mawr y Pasg fel cyfrwng o anogaeth a chais i weddio. Mae Cytûn erbyn hyn, yn fwy na thebyg nag ar unrhyw adeg arall yn ei hanes, yn sefyll ar drothwy nifer o gyfleoedd arwyddocaol. Mae'r cwestiwn a fydd y cyfleoedd hyn yn cael eu cymryd yn dibynnu i raddau helaeth ar allu ac awydd eglwysi Cymru, enwadau a chyrrff cysylltiedig i gydweithio mewn ffyrdd sy'n galluogi gweinidogaeth a chenhadaeth ar y cyd. Trafodwyd gweithgarwch, cyfle a heriau yng nghyfarfodydd llywodraethu Cytûn yn ystod y mis Chwefror hwn: y Grŵp Galluogi a'r Bwrdd.

Clywodd Grŵp Galluogi Cytûn newyddion calonogol am sut mae Cristnogion lleol ledled Cymru, nid yn unig yn cyfarfod, yn addoli ac yn tystiolaethu ynghyd mewn modd eciwmenaidd traddodiadol, maen nhw hefyd yn ymestyn allan trwy fynegiannau mwy newydd o wasanaeth fel cefnogi: banciau bwyd, bugeiliaid y stryd a chaplaniaethau canol tref. Rhoddodd cyrrff cysylltiedig Cytûn ac eglwysi llai adroddiad calonogol iawn o hyd a lled eu gwaith gwerthfawr mewn meysydd fel: tai, hawliau dynol, addysg Gristnogol, adnoddau a chyhoeddiadau, cefnogi llochesau nos i'r digartref, yn ogystal â gwaith arloesol yn ymwneud â dibyniaeth. Mae Cytûn yn ceisio galluogi ymhellach ei grwpiau lleol a chyrrff cysylltiedig trwy: rannu gwybodaeth, cynnig cyngor ar lywodraethu a rheoli, darparu cefnogaeth eiriolaeth, helpu gyda materion cyllid a phroffilio eu gwaith mewn digwyddiadau cenedlaethol.

Heb fod yn syndod, efallai, o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, fe ystyriodd Bwrdd Cytûn yr her o ddarparu mecanwaith ariannu mwy cydlynol ar gyfer offeryn eciwmenaidd Cymru. Mae'r broses honno ar waith. Gan weithio'n effeithiol yn ystod 2013, fe gyflawnodd Cytûn bron y cyfan o'i amcanion ar amser, ac yn is na'i gyllideb. Er hynny, mae Cytûn wedi gweithio dros y ddwy flynedd diwethaf ar ddiffyg cyllidol cynlluniedig. Wedi ei sylfaenu ar gyfanswm cyllidol cytunedig o tua £171,000 ar gyfer 2014, mae Cytûn eisoes wedi dechrau gweithredu Cynllun Gwaith ymdrechgar. Mae'n gwneud hynny gyda dim ond tîm bychan o staff (Cyfwerth staff llawn amser o 3.4 yn unig). Mae'r gwaith yn arwyddocaol, yn effeithiol ac o werth sydd bron yn amhosibl ei gyfrifo o ran y ffydd a'r cyd-destun cyhoeddus Cymreig. Dyma rai o'r

cyfleoedd y bydd yn bosib eu cynnig trwy waith Cytûn yn ystod 2014.



## Cyfleoedd Ffydd, Trefn a Thystiolaeth

Mae Cytûn wedi galluogi cymuned Gristnogol Cymru i ailwampio ei chostau eciwmenaidd a rhyng-ffydd trwy ddarparu cefnogaeth weinyddol i Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru, a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru, ac mae'n ymddangos mai dyma'r man galw cyntaf ar gyfer cyrrff cyhoeddus sy'n dymuno nodi digwyddiadau a gwasanaethau cenedlaethol. Mae Cytûn hefyd wedi helpu sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n effeithiol ar gynghorau eciwmenaidd Prydain ac Iwerddon, Ewropeaidd a'r Byd. Fe fydd Cytûn, yn ystod 2014-15, yn:

- Symud ymlaen ymhellach gyda'r prif drafodaethau ynghylch Yr Eglwys yn Uno yng Nghymru wrth baratoi ar gyfer Cydgyntulliad 2015.
- Parhau i reoli a chyflawni presenoldeb yr eglwys mewn digwyddiadau cenedlaethol pwysig a hwyluso'r trefniadau ar gyfer seremonïau a gwasanaethau.
- Darparu hyfforddiant yn enwedig trwy ei gwrs llwyddiannus Croeso i Gymru ar gyfer gweinidogion sydd newydd ddod i Gymru.
- Gwasanaethu'r ymrwymiad Cristnogol mewn trafodaethau rhyng-ffydd ac ymwneud yn effeithiol mewn tystiolaeth a chenhadaeth â chymunedau Cristnogol y tu hwnt i aelodaeth gyfredol Cytûn. Rhoddwyd cymorth yn ddiweddar i alluogi Cymdeithas y Beibl gyda'i dyheadau recriwtio yng Nghymru.

- Darparu cefnogaeth ac anogaeth genedlaethol sylweddol i ymdrechion eciwmenaidd lleol a rhanbarthol, gan alluogi prosiectau arloesol ambell waith i ennill cyllid o ffynonellau elusennol.
- Rheoli'r cynllun tocynnau am ddim i Wasanaeth y Sul yn yr Eisteddfod Genedlaethol erbyn diwedd mis Mai, 2014. Amcangyfrifir bod y cynllun hwn yn werth dros £16,000 i'r gymuned Gristnogol.

### Cyfleoedd Safleoedd Cyhoeddus

Mae Cytûn mewn safle da i wasanaethu eglwysi yn yr arena gyhoeddus trwy fod yn gwasanaethu ar Gyngor Partneriaeth Trydydd Sector Llywodraeth Cymru. Amcan strategol fydd gwrthwynebu'r cynnydd yn y ffurfiau o seciwlariaeth sy'n ymdrechu i gyfyngu ffydd i gartrefi a manau addoli. Fe fydd Cytûn yn:

- Gwneud cynnydd pellach tuag at gyhoeddi ail luniad o'r adroddiad *Cymru: Cymdeithas Foebol?* erbyn diwedd 2015 gyda golwg ar alluogi Cytûn i gyflwyno portffolio materion cyhoeddus mwy grymus a chyda ffocws mwy pendant.
- Cyhoeddi papurau briffio misol ar ddeddfwriaeth a materion cyhoeddus eraill, a sefydlu grŵp "RADAR" Cymreig i adolygu deddfwriaethau a galluogi ymyrraeth effeithiol ac amserol. Yn ddiweddar, fe drefnodd Cytûn lwyfan ar gyfer Byddin yr Iachawdwriaeth i ymwneud â Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru ynghylch materion yn ymwneud â thlodi.
- Eiriol ar ran a chefnogi mesurau i ehangu gwaith caplaniaeth mewn bywyd cyhoeddus a cheisio cefnogi'r fîm caplaniaeth wledig arloesol yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Mae'n bosib cyfrif gwerth ariannol caplaniaethau sy'n cael eu cynnal yn gyhoeddus yng Nghymru yn ôl miliynau.

### Cyfleoedd Rhyngwladol, Mewnfudo, Hil a Chynulleidfaoedd Ethnig

Ar hyn o bryd mae Cytûn yn darparu Cadeiryddiaeth ar gyfer Partneriaeth Mewnfudo Cymru, ac yn cynnig mewnbwn polisi sylweddol trwy ei aelodaeth o Fforwm Hil Llywodraeth Cymru. Fe fydd Cytûn yn:

- Cefnogi ac yn hybu'n weithredol waith Cymorth Cristnogol a CAFOD yn yr arena ryngwladol.
- Barod i gefnogi'n ad hoc weithgareddau eglwysi ar faterion rhyngwladol yn ôl y galw.
- Hyrwyddo ymhellach bartneriaeth Cytûn ag Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon trwy gefnogi eu gwaith rhyngwladol a chynhyrchu deunyddiau ar gyfer Sul Cyfiawnder Hilyddol 2014.
- Parhau i groesawu cynulleidfaoedd mwy newydd lleiafrifoedd ethnig yn aelodau o Cytûn a darparu cefnogaeth eiriolaeth ble mae hynny'n briodol. Mae Cytûn wedi croesawu a chefnogi cymunedau

Cristnogol mwy newydd o India, Ethiopia, De Corea a'r Wcráin. Rydyn ni hefyd yn parhau i wasanaethu'r gymuned Lutheraidd Almaeneg.



Gwynnos Rhyngffydd, Casnewydd

### Cyfleoedd Dyddiol

Dim ond rhan o waith Cytûn y mae'r uchafbwyntiau sydd wedi eu nodi yn y cylchlythyr hwn yn eu cynrychioli. Caiff cyfleoedd a heriau eu cyflwyno'n ddyddiol gan gyrff cyhoeddus, y trydydd sector, y wasg a'r cyfryngau, yn ogystal â chan eglwysi a chynulleidfaoedd lleol a chenedlaethol. Yn aml, gelwir ar Cytûn i arwain unigolion at y ffynhonnell briodol sy'n ymwneud â materion cyhoeddus a phersonol perthnasol i eglwysi. Y tu hwnt i'r amcanion strategol troswaol, mae Cytûn yn ymdrechu i gyflawni ei alwedigaeth yn ddyddiol trwy gwrdd â'r cyfleoedd a'r heriau y mae Duw wedi eu rhoi wrth ein traed. Mae aelodau fîm y staff hefyd yn barod i fynychu a siarad mewn cyfarfodydd eciwmenaidd lleol yn unol â'r adnoddau sydd ar gael.

### Hoffwn eich hysbysu:

Bydd y Cwrs **Croeso i Gymru** ar gyfer gweithwyr eglwysig lleig ac ordeiniedig sy'n symud i Gymru o fannau eraill yn cael ei gynnal eto rhwng **1-3 Hydref 2014**, yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf. Gellir dod o hyd i fanylion, gan gynnwys sut mae cadw lle, ar wefan Cytûn a gan y swyddfeydd enwadol.

Cadwch le ar y Cwrs Croeso i Gymru trwy lenwi'r ffurflen o wefan Cytûn ([www.cytun.org.uk](http://www.cytun.org.uk)) neu drwy gysylltu â Geraint Hopkins ([geraint@cytun.org.uk](mailto:geraint@cytun.org.uk)).

Cofiwch archebu eich tocyn i Oedfa'r Eisteddfod Genedlaethol eleni drwy glicio ar y linc hwn ar wefan Cytûn - neu drwy ebostio neu ffonio swyddfa Cytûn:



Cliciwch yma am docynnau  
**AM DDIM i Oedfa yr Eisteddfod.**  
**Bore Sul, 3 Awst 2014**

**Click here to order FREE TICKETS  
for the Eisteddfod worship service.**  
**Sunday Morning, 3 August 2014**

Archebwch cyn = **31/5/2014** = Closing date